

Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio

[Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016](#) : Yr Atodlen – Rheoliad 2(5) – Atodlen 4

Mae'r ffioedd hyn yn berthnasol i geisiadau a wneir o 16 Mawrth 2016 ymlaen.

Dylid talu'r ffi pan gyflwynir y Cais.

RHAN 1

Ffioedd taladwy o dan Reoliad 2A

- (1) Yn ddarostyngedig i baragraff 2 o'r Rhan hon, cyfrifir y ffi sy'n daladwy o dan reoliad 2A yn unol â'r tabl a nodir yn Rhan 2 a pharagraffau 3 i 5.
(2) Yn y Rhan hon—
 - mae cyfeiriad at gategori yn gyfeiriad at gategori o ddatblygiadau Arfaethedig a bennir yn y tabl a nodir yn Rhan 2; ac mae cyfeiriad at gategori â rhif yn gyfeiriad at y categori sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y tabl; a
 - mae i "cais deiliad tŷ" ("*householder application*") yr un ystyr ag yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu.
- Pan fo archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig gan **ddeiliad tŷ**, y ffi sy'n daladwy yw **£25**.
- Pan fo'r ffi, mewn cysylltiad ag unrhyw gategori, i'w chyfrifo drwy gyfeirio at arwynebedd y safle, rhaid cymryd mai'r arwynebedd hwnnw yw arwynebedd y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef.
- Mewn perthynas â datblygiad Arfaethedig yng nghategori 2 neu 3, rhaid penderfynu'r arwynebedd llawr gros a grëir gan y Datblygiad arfaethedig yn ôl mesuriad allanol yr arwynebedd llawr, pa un a oes bwriad ai peidio i'w ffinio (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gyda waliau allanol adeilad.
- Pan fo archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â mwy nag un categori, mae ffi sengl yn daladwy, sef yr uchaf o'r ffioedd a gyfrifir yn unol â phob categori o'r fath.

RHAN 2

Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio

Categori o ddatblygiad arfaethedig Ffi daladwy

1. Codi tai annedd	<p>(a) Pan fo—</p> <ol style="list-style-type: none">nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn un i naw, £250,nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn 10 i 24, £600,nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 24, £1,000; <p>(b) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys ac—</p> <ol style="list-style-type: none">arwynebedd y safle arfaethedig yn ddim mwy na 0.49 hectar, £250,arwynebedd y safle arfaethedig yn 0.5 i 0.99 hectar, £600,arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.99 hectar, £1,000.
2. Codi adeiladau (ac eithrio tai annedd)	<p>(a) Pan fo'r—</p> <ol style="list-style-type: none">arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn ddim mwy na 999 metr sgwâr, £250,arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, £600,arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, £1,000;

Categori o ddatblygiad arfaethedig	Ffi daladwy
<p>2. Codi adeiladau (ac eithrio tai annedd)</p>	<p>(b) pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn hysbys ac—</p> <p>(i) nad yw'r arwynebedd safle arfaethedig yn fwy na 0.49 hectar, £250,</p> <p>(ii) arwynebedd arfaethedig y safle yn 0.5 i 0.99 hectar, £600,</p> <p>(iii) arwynebedd arfaethedig y safle yn fwy na 0.99 hectar, £1,000.</p>
<p>3. Gwneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad neu dir</p>	<p>(a) Pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad ac—</p> <p>(i) nad yw arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 999 metr sgwâr, £250,</p> <p>(ii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, £600,</p> <p>(iii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, £1,000;</p>
	<p>(b) Pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o dir ac—</p> <p>(i) nad yw arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.49 hectar, £250,</p> <p>(ii) arwynebedd y safle yn 0.5 i 0.99 hectar, £600,</p> <p>(iii) arwynebedd y safle yn fwy na 0.99 hectar, £1,000.</p>
<p>4. Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithfeydd mwynau(1)</p>	<p>£600.</p>
<p>5. Datblygiad gwastraff</p>	<p>£600.</p>